Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol: Os yw'r Gefnogaeth yn Gywir, Amdani! Mynd i'r Afael â'r Bwlch Cyflogaeth Anabledd

Ymateb Llywodraeth Cymru

17/04/25

## Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 'Os yw'r Gefnogaeth yn Gywir, Amdani! Mynd i'r Afael â'r Bwlch Cyflogaeth Anabledd'.

# Cynnwys


1. **Argymhelliad 1** ........ 3
2. **Argymhelliad 2** ........ 5
3. **Argymhelliad 3** ........ 6
4. **Argymhelliad 4** ........ 7
5. **Argymhelliad 5** ........ 8
6. **Argymhelliad 6** ........ 9
7. **Argymhelliad 7** ........ 10

# 1. Argymhelliad 1

Argymhelliad 1: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod disgwyliadau pobl anabl yn cael eu bodloni drwy gyflawni ei hagenda polisi datganedig cyn diwedd y Chweched Senedd. Mae angen i ymrwymiadau canmoladwy droi'n gamau gweithredu pendant a fydd yn cynnwys:

- Cwblhau gwaith y Tasglu Hawliau Pobl Anabl ac unrhyw waith arall er mwyn datblygu a chyd-gynhyrchu polisi sy'n deillio o'r adroddiad 'Drws ar Glo' cyn gynted â phosibl ac erbyn mis Mai 2025 fan bellaf.
- Cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu Hawliau Pobl Anabl sy'n ystyried amrywiadau rhanbarthol yn y Bwlch Cyflogaeth Anabledd ac sy'n cynnwys targedau ac amserlen ar gyfer gweithredu cyn gynted â phosibl ac erbyn mis Mai 2025 fan bellaf.
- Gwireddu ei hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu trwy ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl yng nghyfraith Cymru cyn diwedd y Chweched Senedd ym mis Ebrill 2026.

Pe bai Llywodraeth Cymru yn gwrthod unrhyw un o'r camau yn yr argymhelliad hwn, dylai nodi yn ei hymateb pa gamau amgen, gan gynnwys amserlenni, y mae'n bwriadu eu cymryd fel camau lliniaru ac er mwyn ceisio cyflawni'r nod cyffredinol.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Cynhaliodd y Tasglu Hawliau Pobl Anabl ei gyfarfod olaf ym mis Ionawr 2025 i dderbyn y fframwaith ar gyfer y Cynllun Hawliau Pobl Anabl drafft.

Un o egwyddorion adroddiad Drws ar Glo: datgloi bywydau a hawliau pobl anabl yng Nghymru ar ôl COVID-19 | LLYW.CYMRU a datblygu Cynllun Hawliau Pobl Anabl fu ymgysylltu â phobl anabl mewn ffordd gynaliadwy ac ystyrlon. Bwriedir i'r ymgysylltu hwn ddigwydd ar draws pob ardal mewn partneriaeth wirioneddol gyda phobl anabl a Sefydliadau Pobl Anabl.

Bydd y Cynllun Hawliau Pobl Anabl drafft a'i gamau gweithredu cysylltiedig yn cael eu cyhoeddi ym mis Mai 2025. Mae'r cynllun traws-lywodraethol 10 mlynedd hwn yn nodi'r camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd yn y tymor byr, a'r canlyniadau hirdymor sydd eu hangen i sicrhau bod pobl anabl yn gallu ffynnu fel aelodau cyfartal o gymdeithas Cymru. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys ystyried y gwahaniaethau cyflogaeth a chyflog rhwng pobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl, a'r mesurau sydd eu hangen i leihau'r amrywiadau hyn. Bydd ymgynghoriad 12 wythnos y cynllun yn rhoi cyfle i ystyried amrywiadau

rhanbarthol ledled Cymru. Fel rhan o'n dyletswyddau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, mae gan Lywodraeth Cymru 7 Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol. Bydd y cynllun hwn yn cefnogi'r amcanion hyn, gan gynnwys Amcan 6: Byddwn yn creu Cymru â chyfleoedd teg a chyfartal i gael swydd ac sy'n sicrhau triniaeth deg a chyfartal yn y gweithle, gan gynnwys cyflog ac amodau teg. Byddwn hefyd yn sefydlu Bwrdd Ymgynghorol Allanol i ddarparu cyngor a chymorth ynghylch gweithredu, cyflawni ac effaith y cynllun.

Fel yr eglurwyd yn y dystiolaeth a ddarparwyd i'r Pwyllgor, mae Gweithgor Opsiynau Deddfwriaethol wedi'i sefydlu mewn perthynas ag ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i ymgorffori yng nghyfraith Cymru Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl.   Nid yw pwerau Gweinidogion Cymru i ddeddfu yn y maes hwn yn ddigyfyngiad, ac mae'r Gweithgor Opsiynau Deddfwriaethol wrthi'n dadansoddi erthyglau'r Cytundeb ac yn nodi lle y byddai'r ymgorffori yn cryfhau mesurau diogelu hawliau ochr yn ochr â'r defnydd o gyfryngau anneddfwriaethol. Mae'r gwaith hwn yn hanfodol cyn mynd ati i ymgorffori'r Confensiwn, a bydd yn sicrhau bod Cymru yn gweithredu mewn ffordd gydlynol, wybodus, realistig a strategol o safbwynt hawliau dynol.

Goblygiadau Ariannol: Darparwyd grant o £44,515 yn 2024-25 i gefnogi cynllun peilot i ddatblygu a phrofi methodoleg y broses ddadansoddi. Mae cyllid pellach o £99,000 wedi'i gymeradwyo ar gyfer 2025-26 i hyrwyddo'r gwaith hwn.

# 2. Argymhelliad 2

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad cynhwysfawr o'r trefniadau presennol o fewn Busnes Cymru er mwyn sicrhau bod eu gweithgareddau'n cyd-fynd â'r nod cyffredinol o ddileu'r bwlch cyflogaeth anabledd erbyn 2035. Mae hyn yn cynnwys adolygu ffynonellau canllawiau cyfredol; sut mae canllawiau cyfredol yn cael eu hyrwyddo, a llwybrau cwsmeriaid er mwyn creu cymaint o gyfleoedd â phosibl i godi ymwybyddiaeth pan fydd cyflogwyr yn rhyngweithio â gwasanaethau cymorth busnes. Dylid cynnal yr adolygiad yn gyflym a'i gwblhau erbyn Gorffennaf 2025.

**Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor

Aeth Busnes Cymru ati yn 2023 i adolygu'r gwasanaeth presennol, a chynhaliodd Asesiad Effaith Integredig i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhoi cymaint o gyfleoedd â phosibl i bobl anabl fanteisio ar wasanaeth Busnes Cymru, ac yn eu hyrwyddo. Fel rhan o'r ymrwymiad i'r Rhaglen Lywodraethu i gau'r bwlch rhwng pobl anabl a gweddill y boblogaeth sy'n gweithio, mae Busnes Cymru yn gweithio'n agos gyda Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl Llywodraeth Cymru i gynnig cymorth a chanllawiau i fentrau bach a chanolig a busnesau newydd ynghylch recriwtio gweithwyr anabl. Bydd Busnes Cymru yn adolygu'r ffynonellau canllawiau sydd ar gael ar hyn o bryd i gyflogwyr sydd am recriwtio drwy wasanaeth Busnes Cymru, gan weithio gyda Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl Llywodraeth Cymru i ystyried a yw llwybrau cwsmeriaid yn sicrhau cymaint o gyfleoedd â phosibl i godi ymwybyddiaeth.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim

# 3. Argymhelliad 3

Argymhelliad 3. Er mwyn monitro effeithiolrwydd yr Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl, dylai Llywodraeth Cymru osod targedau ar gyfer eu gwaith a rhoi adroddiad arnynt bob blwyddyn. Dylai'r targedau fod yn sail ar gyfer gwella'n barhaus a defnyddio metrigau mesuradwy sy'n cynnwys:

- cyfanswm nifer yr ymgysylltiadau â rhanddeiliaid allanol
- cyfanswm nifer yr ymgysylltiadau sy'n arwain at gynigion parhaol o gyflogaeth
- nifer yr ymgysylltiadau sy'n arwain at newidiadau mewn polisïau neu brosesau recriwtio a chadw.

Buasem yn disgwyl i'r argymhelliad hwn gael ei weithredu'n gyflym, a dim hwyrach na mis Gorffennaf 2025.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Rydym wedi cyhoeddi'r amcanion strategol y mae'r Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl yn gyfrifol am eu cyflawni. Darparwyd yr amcanion hyn yn y dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r amcanion yn sail i drafodaethau perfformiad rheolaidd gyda'r Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl, gan gynnwys eu gweithgareddau ymgysylltu ac allbynnau'r gweithgareddau hyn.

Er ein bod yn cydnabod y targedau a awgrymir gan y Pwyllgor, nid ydym o'r farn y bydd mesur nifer yr ymgysylltiadau yn unig yn darparu darlun cynhwysfawr o'r gwerth a ddaw yn sgil yr Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl. Yn hytrach, byddwn yn cyfathrebu'n effeithiol ynghylch gwaith Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl ac effaith eu cyfraniadau drwy Ddatganiad Ysgrifenedig y byddwn yn ymrwymo i'w gyhoeddi bob 6 mis.

Goblygiadau Ariannol: Dim

# 4. Argymhelliad 4

Argymhelliad 4. Rhaid i Lywodraeth Cymru geisio sicrhau newidiadau brys i'r Cynllun Hyderus o ran Anabledd er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon am effeithiolrwydd cyffredinol a lefelau ymddiriedaeth yn y Cynllun, yn arbennig o ran
Lefelau 1 a 2. Erbyn diwedd mis Ebrill 2025, dylai Llywodraeth Cymru nodi'r canlynol yn fanwl:

- pa welliannau yr hoffai eu gweld i'r Cynllun Hyderus o ran Anabledd (gan gynnwys trefniadau achredu'r Cynllun);
- sut y mae'n bwriadu sicrhau'r newidiadau hyn, ac amserlen yn nodi pryd y gallwn weld y gwelliannau wedi'u cyflwyno.

Pe bai Llywodraeth Cymru yn methu â sicrhau'r newidiadau angenrheidiol i'r Cynllun Hyderus o ran Anabledd o fewn strwythurau presennol, yna dylai roi ystyriaeth lawn i ddatblygu nod barcud uchelgeisiol newydd Cymreig sy'n ennyn parch cyflogwyr a gweithwyr yng Nghymru. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl ar gynnydd gyda'r argymhelliad hwn erbyn mis Rhagfyr 2025.

Ymateb: Derbyn

Rydym wedi dod ag adroddiad y Pwyllgor i sylw Llywodraeth y DU ac rydym yn ymgysylltu'n weithredol â nhw i geisio gwelliannau i'r Cynllun Hyderus o ran Anabledd. Mae Llywodraeth y DU wedi mynegi diddordeb mewn archwilio ffyrdd o wneud y cynllun yn fwy cadarn, a byddwn yn parhau i ymgysylltu â nhw ar y mater hwn. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio gydag aelodau o'r Tasglu Hawliau Pobl Anabl i gydgynhyrchu tystiolaeth a fydd yn profi ymarferoldeb cynllun sy'n benodol i Gymru.

Yn ogystal, rydym yn defnyddio ein dylanwad i godi ymwybyddiaeth o Hyderus o ran Anabledd a chynyddu nifer Arweinwyr Hyderus o ran Anabledd (Lefel 3) yng Nghymru, yn enwedig yn y sector cyhoeddus datganoledig. Yn ddiweddar, cynhaliwyd tri digwyddiad rhanbarthol gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i gryfhau'r berthynas rhwng Cynghorwyr Cyflogaeth Pobl Anabl yr Adran Gwaith a Phensiynau, Cynghorwyr Cyflogaeth Pobl Anabl Busnes Cymru, Cynghorwyr Anabledd Gyrfa Cymru, a Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl Llywodraeth Cymru.

Rydym yn ymrwymo i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar gynnydd mewn perthynas â'r argymhelliad hwn erbyn diwedd y flwyddyn.

Goblygiadau Ariannol: Dim

# 5. Argymhelliad 5

**Argymhelliad 5**. Dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i gyrff datganoledig y sector cyhoeddus wneud cyfraniad mwy sylweddol, pan fo hynny'n bosibl, at y nod o ddileu'r Bwlch Cyflogaeth Anabledd. Dylai hyn gynnwys ei gwneud yn ofynnol iddynt:

- adolygu eu polisïau a'u harferion i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r Cynllun Gweithredu Hawliau Pobl Anabl sydd ar ddod;
- gosod targed i ddod yn Arweinwyr Hyderus o ran Anabledd o fewn amserlen benodol;
- cynnwys dileu'r bwlch cyflogaeth anabledd fel amcan ffurfiol yn eu cynlluniau llesiant.

Pan fo'n bosibl, dylid gweithredu'r argymhelliad hwn o fewn amserlen benodol a
realistig, a'n hawgrym yw y byddai erbyn diwedd 2025.

**Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor

Rydym yn cefnogi'r egwyddor o weld cyrff datganoledig y sector cyhoeddus yn arwain drwy esiampl o ran cyfrannu at fynd i'r afael â'r Bwlch Cyflogaeth Anabledd drwy gymryd camau.  Bydd y Cynllun Hawliau Pobl Anabl, y byddwn yn ei gyhoeddi ac yn ymgynghori arno yn ystod yr wythnosau nesaf, yn cynnwys camau perthnasol yn hyn o beth.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim

# 6. Argymhelliad 6

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r bylchau a chynnwys mwy o hyblygrwydd ym meini prawf cymhwystra rhaglenni cymorth allweddol ar gyfer ymgeiswyr anabl. Mae hyn yn cynnwys gosod terfyn oedran uwch ar gyfer pobl anabl ym mhob carfan yn yr iteriad nesaf o gynllun Twf Swyddi Cymru. Bydd hyn yn sicrhau bod pobl ifanc anabl yn gallu cael cymorth ar yr amser cywir ac ar
gyflymder priodol.

**Ymateb:** Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod nod uchelgeisiol iddi ei hun i uno Twf Swyddi Cymru+, ReAct+ a Cymunedau am Waith a Mwy yn rhaglen gymorth gydlynol ar gyfer cyflogadwyedd. Nod y cam hwn yw trawsnewid, symleiddio a gwella'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu, gan sicrhau bod cymorth cynhwysfawr ar gael i unigolion sy'n chwilio am waith drwy system gyfunol. Gan ddechrau ar 29 Ebrill 2025, bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu ledled Cymru.

Bydd cefnogaeth i bobl anabl yn bwynt trafod allweddol yn y digwyddiadau hyn. Bydd adborth o'r digwyddiadau yn cael ei ddefnyddio i sicrhau bod y model newydd yn bodloni anghenion a disgwyliadau'r rhai nad ydynt mewn gwaith, cyflogwyr a darparwyr gwasanaethau.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim

# 7. Argymhelliad 7

**Argymhelliad 7**. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Anabledd yn gwella ei hymgysylltiad â'r sector hawliau pobl anabl ac adrodd ar y materion a'r bylchau mewn data y bydd yn gweithio arnynt erbyn mis Mai 2025.

**Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor

Yn unol â'r strategaeth a nodwyd ar gyfer pob un o'r Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd (yr Unedau), mae'r Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Anabledd wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid amrywiol o'r sector hawliau pobl anabl drwy gydol ei chynllun gwaith presennol. Mae hyn yn cynnwys cydweithio ag academyddion, Sefydliadau Pobl Anabl, a pherchnogion busnesau preifat drwy ei gwaith gydag aelodau o'r Tasglu Hawliau Pobl Anabl i gefnogi datblygiad y Cynllun Hawliau Pobl Anabl sydd ar droed, ac wrth dreialu'r broses o gydgynhyrchu Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth.

Cyhoeddwyd crynodeb o'r gwaith a wnaed mewn ymateb i anghenion polisi a rhanddeiliaid ar wefan Llywodraeth Cymru yn 2024, ac mae ail ddiweddariad cynnydd wedi'i gynllunio ar gyfer y gwanwyn eleni.

Ymhlith prosiectau allweddol yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Anabledd yn 2025-26 mae parhau i ddatblygu cwestiynau arolwg sy'n cydymffurfio â'r Model Cymdeithasol, parhau i ymchwilio i rwystrau i gyflogaeth ac ymyriadau cysylltiedig, ymchwil i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth o ran Iaith Arwyddion Prydain, a rhaglen waith newydd i werthuso gweithrediad ac effaith y Cynllun Hawliau Pobl Anabl.

Wrth i'r prosiectau hyn fynd rhagddynt, bydd yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Anabledd yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid ar draws sector hawliau pobl anabl i ddatblygu a chyflawni ei chynllun gwaith i'r dyfodol.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim